# Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar ‘Mynediad i Ddŵr Mewndirol’

15 Tachwedd 2010

Annwyl

**Cais am Wybodaeth.**

Cyfeiriaf at eich cais a ddaeth i law ar 28 Hydref pan wnaethoch ofyn,,

*Cynhyrchodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd adroddiad ar 'Mynediad i Ddŵr Mewndirol’ lle oedd yn dweud, ar sail cyngor cyfreithiol roedd wedi ei gael, nad oedd hawl mordwyo cyhoeddus cyffredinol ar ddŵr heb lanw yng Nghymru a Lloegr. Mae’r datganiad safbwynt hwn i’w weld yn adrannau 13-28 o’r adroddiad sydd ar gael yn <http://www.cynulliadcymru.org/cr-ld8089-e.pdf>*
*Hoffwn gael copi o’r cyngor cyfreithiol a gafodd y pwyllgor ac y seiliwyd y datganiadau hynny arno, yn enwedig y cyngor yn ymwneud â datganiadau 14 i 22.*
*Dylai’r wybodaeth hon fod ar gael i’r cyhoedd gan ei bod yn ymwneud â deddfwriaeth wedi ei chyhoeddi a dyfarniadau mewn achosion cyfreithiol. Felly, ni fyddai rheswm dros gadw’r wybodaeth yn ôl.*

Gallaf gadarnhau bod yr wybodaeth rydych wedi gofyn amdani yn cael ei chadw gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, yn fy marn i mae’r wybodaeth hon (h.y. cyfathrebu rhwng cyfreithwyr a’r Pwyllgor Cynaliadwyedd er mwyn darparu cyngor cyfreithiol) yn amodol ar fraint broffesiynol gyfreithiol. O ganlyniad, caiff ei heithrio rhag ei chyhoeddi dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth Adran 42(1).

Mae’r eithriad hwn yn amodol ar brawf lles y cyhoedd, ac yn ein barn ni mae lles y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad hwn yn fwy na lles y cyhoedd wrth ddatgelu’r wybodaeth. Mae ein rhesymeg dros wneud y penderfyniad hwn wedi ei hamlinellu isod.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 898889
E-bost/Email:Kevin.willoughby@wales.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae'n amlwg fod gwybod y farn am y gyfraith y seiliodd y Pwyllgor ei argymhellion arni o les i'r cyhoedd, fel y gall y cyhoedd farnu a oedd y farn honno am y gyfraith yn gywir ynteu'n anghywir.

Yn ein barn ni, mae'r farn am y gyfraith y seiliodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd ei argymhellion yn ei adroddiad arni wedi ei gosod allan yn fanwl yn yr adroddiad '*Ymchwiliad i fynediad i ddŵr mewndirol'* (Saesneg yn unig).

Y paragraffau perthnasol yn yr adroddiad sy'n cyfeirio at y sefyllfa gyfreithiol y seiliwyd yr argymhellion arni yw 13-28, 38-41, 79-82, 91-93 a 111-112. Yn benodol, mae paragraffau 13-28, dan y teitl 'The Legal Position in Wales,' yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa gyfreithiol a ystyriwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â mynediad i ddŵr mewndirol yng Nghymru.

Gan fod yr adroddiad yn gosod allan yn llawn y farn am y gyfraith y seiliwyd argymhellion y Pwyllgor arni, rydym o'r farn fod lles y cyhoedd y cyfeiriwyd ato uchod yn cael ei fodloni gan delerau'r adroddiad ei hun. Felly, nid oes lles i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r ddogfen freintiol sy'n gosod allan y cyngor y mae'r farn wedi ei seilio arno.

Er mwyn osgoi dryswch, rydym, wrth gwrs, yn fodlon cadarnhau bod yr adroddiad yn adlewyrchu'r cyngor a roddwyd.

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn
http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn.

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi, neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae manylion am egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad wedi eu gosod allan yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn
http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm
Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Yn gywir

Kevin Willoughby
Y Rheolwr Mynediad i Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru